**EITEM AR YR AGENDA: 6**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**2 Rhagfyr 2014**

**MYND AT LARYMAU TÂN AWTOMATIG**

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am oblygiadau posibl cyflwyno polisi cadarnach ynglŷn ag ymateb i alwadau 999 gan larymau mwg awtomatig.

## Cefndir

2 Mae larymau tân awtomatig (LTA) yn systemau cymhleth a thrydanol sy'n cael eu gosod mewn eiddo annomestig megis swyddfeydd, ffatrïoedd, gwestai a chartrefi preswyl. Eu diben yw rhoi rhybudd cynnar i'r preswylwyr fod yna dân. Er mai mewn eiddo annomestig sy'n cael eu rheoleiddio drwy'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2006 y mae'r systemau hyn yn cael eu gosod fel arfer, bu cynnydd yn ddiweddar yn y defnydd ohonynt gan 'gwmnïau gofal' mewn eiddo lle mae pobl oedrannus a bregus yn byw.

3 Mae nifer y gosodiadau LTA wedi cynyddu'n ddirfawr dros y blynyddoedd, gyda nifer o wahanol systemau. Er bod llawer wedi cael eu rhagnodi'n briodol, eu cynllunio'n dda, eu cynnal a'u cadw a'u defnyddio'n gywir, mae rhai eraill yn arwain at seinio diangen yn aml am resymau damweiniol sydd heb fod yn gysylltiedig â thân neu oherwydd bod y system yn ddiffygiol. Gallai hynny ddigwydd oherwydd nam ar y system, pryfed, chwistrell aerosol, llwch neu ddifrod damweiniol i'r larwm.

4 Mae ymchwil dros y tair blynedd ddiwethaf yn cadarnhau mai nid tanau sydd wedi achosi 96-97% o'r adegau pan y mae larymau tân wedi canu. Fel arfer ymhob blwyddyn bu dros 2,000 o alwadau gan larymau tân awtomatig yng Ngogledd Cymru. At hynny, oherwydd cyfradd uchel y galwadau diangen o ganlyniad i larymau awtomatig, mae profiad wedi dangos nad yw perchnogion yn dibynnu ar larymau tân awtomatig yn unig i gadarnhau bod yna dân gwirioneddol.


5 Mae staff Ystafell Reoli GTAGC eisoes yn cwestiynu galwadau larymau tân awtomatig fel rhan o'u dulliau trin galwadau, gan arwain at benderfynu peidio â mynd at 16% o'r galwadau larymau tân awtomatig a dderbynnir.

## Gwybodaeth

6 Mae'r tabl isod yn cyflwyno gwybodaeth am y galwadau larymau tân awtomatig a dderbyniwyd gan GTAGC yn y tair blynedd ariannol ddiwethaf.

| Bl. | Galwadau a ddaeth gan LTA | Galwadau LTA yr aethpwyd atynt | Galwadau LTA nad aethpwyd atynt | % o'r holl alwadau LTA nad aethpwyd atynt |
|---|---|---|---|---|
| 2011/12 | 2,220 | 1,993 | 227 | 10.2% |
| 2012/13 | 2,275 | 1,916 | 359 | 15.8% |
| 2013/14 | 2,177 | 1,830 | 347 | 15.9% |

7 Mae'r siartiau isod yn dangos sut y mae'r galwadau diangen gan larymau tân awtomatig bron yn draean o'r holl alwadau brys yr eir atynt bob blwyddyn.



8 Mae'r tabl isod yn cyflwyno gwybodaeth am nifer y tanau yr aethpwyd atynt ar ôl i Ystafell Reoli GTAGC gael gwybod drwy system larwm tân awtomatig:

| Bl. | Cyfanswm nifer y tanau | Tanau y cafwyd gwybod amdanynt gan system LTA | % o'r holl danau y cafwyd gwybod amdanynt gan system LTA |
|---|---|---|---|
| 2011/12 | 3,165 | 51 | 1.6% |
| 2012/13 | 2,349 | 71 | 3.0% |
| 2013/14 | 2,416 | 76 | 3.1% |

9 Mae'r tabl isod yn cyflwyno gwybodaeth am nifer y galwadau larymau tân awtomatig a dderbyniwyd ac oedd yn danau go iawn.

| Bl. | Cyfanswm y galwadau LTA a dderbyniwyd | Galwadau LTA a dderbyniwyd ac a oedd yn danau | % o'r holl alwadau LTA a dderbyniwyd ac a oedd yn danau |
|---|---|---|---|
| 2011/12 | 2,220 | 51 | 2.3% |
| 2012/13 | 2,275 | 71 | 3.1% |
| 2013/14 | 2,177 | 76 | 3.5% |

10 Mae anfon ymateb brys at alwadau diangen yn gostus ac yn codi nifer o bryderon:

- llai o griwiau gweithredol ar gael ar gyfer argyfyngau gwirioneddol
- yr effaith pan fo prif gyflogwyr diffoddwyr tân y system RDS yn rhyddhau pobl i fynd at alwadau diangen
- mwy o risg i'r cyhoedd, staff y gwasanaeth tân a defnyddwyr eraill y ffordd pan fo teithiau 'golau glas' at larymau tân awtomatig
- hunanfodlonrwydd posibl ymhlith rheolwyr a meddianwyr o ganlyniad i systemau larwm annibynadwy
- cost ymateb i signalau tân diangen pan gellir defnyddio'r arian yn well ar gyfer pethau eraill
- tarfu ar barhad busnes meddianwyr, ac ar hyfforddiant a gwaith arall y Gwasanaeth Tân ac Achub.

11 Mae modd cyfrifo'r gost i'r Awdurdod am ymateb i larymau tân gan systemau awtomatig o ran gwastraff amser criwiau amser cyflawn a ffioedd troi allan i griwiau'r system RDS. Hefyd, mae teithiau diangen mewn cerbydau yn golygu cost tanwydd a thraul. Petaem yn defnyddio'r

gost dybiannol o £81.50 (sef cost cyflog criw o bedwar diffoddwr tân a rheolwyr gwylfa am awr) am bob galwad ddiangen oherwydd larwm awtomatig, mae'r gost yn £158,273, £150,367 a £142,951 am y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.

12 Mewn gwirionedd, mae nifer fawr o'r galwadau hyn gan larymau tân awtomatig yn cael ymateb gan griwiau amser cyflawn ac nid yw cyflogau'r rheini'n amrywio yn ôl gweithgarwch. Dim ond mewn ardaloedd gwledig y byddai'r arbedion yn cael eu gwireddu mewn arian parod o ganlyniad i ostyngiad yn y ffioedd troi allan. Yn seiliedig ar brofiad Gwasanaethau eraill byddai'n ddarbodus i ni dybio y bydd tua 15% o'r galwadau hyn yn digwydd mewn ardaloedd gwledig ac felly fe allwn arbed tua £25,000.

13 Mae profiad gwasanaethau tân ac achub eraill yn y Deyrnas Unedig, megis Swydd Rydychen, sydd wedi gweithredu'r polisi hwn am y degawd diwethaf, a phrofiad GTAGC yn ystod y cyfnodau diweddar o weithredu diwydiannol, yn dangos effeithiolrwydd cwestiynu galwadau larymau tân awtomatig yn gadarnach fel ffordd o ostwng y nifer o weithiau yr ydym yn ymateb i alwadau diangen.

14 Drwy fynd ati'n gadarn i gwestiynu galwadau larymau tân awtomatig, a mynnu derbyn galwad 999 i gadarnhau bod yna dân (neu o leiaf fod amheuaeth wirioneddol fod yna dân), byddai modd gostwng nifer y galwadau diangen yr ydym yn mynd atynt.

15 Wrth ddilyn polisi o'r fath, byddai modd defnyddio gwahanol feini prawf i gyfateb i wahanol safleoedd, gan gydnabod y gwahaniaethau yn y lefelau risg, er enghraifft rhwng llety gwarchod a safleoedd masnachol.

16 Dylid nodi bod rhai risgiau o ganlyniad i gyflwyno polisi o'r fath, gan gynnwys:

a) effeithiau unrhyw oedi o ran anfon ymateb tra rydym yn sefydlu bod yna dân go iawn;
b) anfodlonrwydd a chyhoeddusrwydd gwael, yn enwedig pan fo'r polisi yn dal yn newydd, wrth i berchnogion yr eiddo dan sylw sylweddoli na allant ddisgwyl yr un ymateb gan eu ATA ag o'r blaen;
c) y posibilrwydd o her gan gyrff cynrychioliadol.
d) y posibilrwydd o golli diffoddwyr tân y system RDS o ganlyniad i ostyngiad yn eu ffioedd troi allan.

**Argymhellion**

17 Bod yr Aelodau'n:

(i) cefnogi'r polisi i ddim ond ymateb i larymau tân awtomatig pan ddaw cadarnhad fod tân ar y safle. Mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 15 ar ôl eu canfod drwy asesiadau risg pellach a chael cytundeb y Prif Swyddog Tân;

(ii) cytuno y dylai'r arbediad gwerth £25,000 o ganlyniad i fabwysiadu'r polisi hwn gael ei ddefnyddio i leihau'r gofyniad cyllidebol ar gyfer 2015/16.